WQ35.E.81

# MARWNAD,

ER

# Coffadwriaeth

AM

# *DAFYDD HUWS,*

O ALLT Y SCRECH,

LLANGYFELACH, MORGANWG,

Yr hwn a fu farw Awst 3, 1821, yn 69 oed; gwedi bod yn pregethu dros 40 mlynedd yn mysg yr Anymddibynwyr.

GAN IOAN EFAN, O DREFORYS.

Yna dyddiau Dafydd a nesasant i farw.—Felly Dafydd a hunodd gyda'i dadau.—1 BREN. II. 1, 10.

*ABERTAWE:*

Argraffedig yn Swyddfa SEREN GOMER, gan J. HARRIS.

1821.

Y205310280

D. S. *Na fydded i neb ail-argraffu y Farwnad hon, heb genad yr Awdwr.*

## *MARWNAD, &c.*

MAE Rhagluniaeth yn gweithredu
 Yn ei throion maith o hyd,
Pethau newydd ddaw i'r golwg,
 Er ein galar yn y byd;
Dyma fel y bydd hi yma,
 Dyma yw'r addewid fawr,
I'r duwiolion mae gofidiau,
 Gorthrymderau ar y llawr.

2

Hen Ragluniaeth yw dy enw,
 Gweithio'r wyt yn fore iawn;
'Rwyt yn gweithio gyda ninau
 O foreuddydd i brydnawn;
'Rwyt yn gweithio trwy'r elfenau,
 Gwyntoedd, 'stormydd, creulon, cri,
'Rwyt ti'n gweithio'n anorchfygol
 Trwy awdurdod angeu dû.

3

DAFYDD HUW, ar ryw ddiwrnod
Daeth ei oriau maith i ben,
Gadael wnaeth ei hen gyfeillion,
Hedeg wnaeth i'r nefoedd wen,
At y teulu hardd nefolaidd,
Nad oes arnynt friw na phoen,
Oll yn gwisgo'u gynau gwynion,
Gwedi'u cànu'n ngwaed yr Oen.

4

Gwyn eu byd yr holl dduwiolion,
Hen fforddolion Salem lân,
Er eu dala yn yr anial
Gan elynion fawr a mân;
Er eu curo gan y 'stormydd
Cânt y fuddygoliaeth fawr;
Fe ga'dd DAFYDD HUW o'r diwedd
Ben ei elyn ola' lawr.

5

Pan daeth angeu'i dori'r undeb
Ei enaid aeth o'i rwymau'n rhydd,
Fyny fry i wlad y gwynfyd
Hedeg wnaeth ar aden ffydd,
At ei anwyl briod Iesu,
Yno i foli Tri yn Un,
Fel yr oedd ef gwedi dechreu
Yma yn yr anial blin.

6

Ca'dd ei alw mewn i'r winllan
  Ar y drydedd awr o'r dydd,
Ca'dd ei gynal yn yr eglwys
  Nes i'w rwymau fyn'd yn rhydd ;
Ca'dd ei nerthu yn y 'stormydd,
  Weithiau'n arw, weithiau'n dêg ;
Bu'n ymdrechu gyda'r achos
  Hyd yr unfed awr ar ddeg.

7

Yn ddeunaw oed y daeth i'r eglwys,
  Yn ei ie'nctyd dan yr iau,
'Nawr 'rwy'n cofio geiriau'r 'sgrythyr,*
  Gwyn eu byd y cyfryw rai ;
Crist yn Geidwad oedd e'n geisio,
  Crist yn lloches rhag y llid ;
Yn yr holl ddaioni ynddo
  Tebyg iddo byddo'r byd.

8

Yn y *Mynydd Bach* tueddwyd,
  Y derbyniwyd Dafydd Huw,
Gyda *Lewis Rhys* yn addas,
  I gymdeithas eglwys Dduw,
Gyda *Dafis* bu e'n dirion,
  Yno'n dawel yr un wedd,

* Galar. iii. 27.

Gydag *Efans* y parhaodd
    Nes y daliodd oriau'r bedd.

9

Ca'dd ei nerthu i broffesu
    'R hen efengyl fawr ei dawn,
Trwy bob rhwystrau, o flyneddau,
    Un ar ddeg a deugain llawn;
Bu yn ddïacon flyneddau,
    Yn ddiwyd byddai yn y gwaith;
Bu'n pregethu ddeugain mlynedd,
    Nes daeth diwedd ar ei daith.

10

Ca'dd y fraint o ddwyn i fyny
    Ei anwyl blant yn ofn Duw,
Cafodd weled ffrwyth ei weddiau
    Yn y byd tra'r oedd e'n fyw;
Rhai o honynt ddaeth i'r eglwys
    Er ei gysur yn ddilai:
Arglwydd, galw'r rhai sy'n aros
    Cyn y caffo'r drws ei gau.

11

Rhoddodd destyn er tystiolaeth
    O'i farwolaeth gyda Duw,
Fel y d'wedodd Dafydd frenin,
    Felly d'wedodd Dafydd Huw,

Os rhodio* wnaf glyn cysgod angeu,
Ni ddaw gelyn yno'm cwrdd,
Presenoldeb f'anwyl Briod
Gadw'm holl elynion ffwrdd.

12

Naw a thrugain oedd ei oedran
Pan y darfu ei oriau gyd ;
Ca'dd y palmwydd yn lle cleddyf ;
Dyma fwy na fedd y byd :
Ca'dd y goron yn lle'r gofid,
Ca'dd y gwynfyd yn lle'r gwae ;
Dyma fraint yr holl dduwiolion,
Ninau fyddo'r cyfryw rai

13

'Nawr 'rwy'n rhoddi gair o gynghor
I berth'nasau Dafydd Huw,
Byddwch dawel yn y drefn,
Dyma fel y trefnodd Duw ;
Ceisiwn 'nabod Iesu'n Geidwad
Cyn gwynebu brenin braw,
Fel y byddoch chwi a mineu
Yn gadwedig ddydd a ddaw.

14

Na thristâwn wrth wel'd y golled,
Fe ddaw eto yn ei le

---

Salm xxiii. 4.

Un fo'n gymhwys at yr achos,
  Er i DDAFYDD fyn'd i'r ne';
Er fod DAFYDD dduwiol gwedi
  Myn'd i'r nefoedd lân i fyw,
Fe ddaw Salomon drachefn
  I adeiladu teml Dduw.

15

Pan y darfu amser urddas
  Hen Elias yma'i gyd
Eliseus a ymddangosodd
  Dros yr Arglwydd yn y byd;
Yn lle Moses daeth un arall
  I ddwyn y gwersyll yn y bla'n,
Ac Eleasar yn lle Aaron
  Ddaeth i'r offeiriadaeth lân.

16

'Nawr ni' ddywedwn, Ffarwel, DAFYDD,
  Rhodd y cleddyf glân i lawr,
I gael canu *Halelwia*
  Yn nghyfiawnder Iesu mawr;
Mae ei yrfa gwedi' gorphen,
  Ei enaid aeth i'r bywyd draw,
Ei felys waith yw Moli'r Iesu,
  A thelyn aur sydd yn ei law.

---

J. HARRIS, ARGRAFFYDD, ABERTAWE.